Newyddlen Ty Mawr

Gwanwyn 2010

Mae'r gwanwyn yma o'r diwedd!

Mae'r gaeaf hir, oer ar ben a'r gwanwyn yma o'r diwedd! Mae'n adeg hyfryd o'r flwyddyn i ymweld â'r parc, perffaith ar gyfer gwylio bywyd gwyllt yn ogystal ag amser bendigedig i weld anifeiliaid y parc gan gynnwys yr ŵyn yn prancio. Eleni rydym wedi benthyca hwrdd torddu (brîd Cymreig) i fagu gyda'n 4 dafad dorddu. Ganed yr ŵyn ym mis Mawrth ac maent yn wirioneddol ddel! Os ydych yn ymweld â'r parc yn ystod Mawrth ac Ebrill, cofiwch gadw eich ci ar dennyn wrth ymyl y defaid a'r ŵyn.

Ar hyn o bryd mae ein hwrdd mynydd du Cymreig Ibod Fred ar werth i gartref da gan nad ydym mwyach yn magu defaid mynydd duon.

Dyfodiaid newydd

Ar ôl colli ein hen gathod Olive a Barney trwy henaint gwaetha'r modd penderfynwyd ei bod yn bryd i ni gael cathod newydd. Ym mis Hydref achubwyd dwy gath brydferth gennym o Gyfeillion Cathod Wrecsam. Cath frech wryw o'r enw Mog yw un, a chath fenyw ddu a gwyn o'r enw Meg yw'r llall, rhyw 4 oed. Maent yn ymgartrefu'n dda ac yn brysur yn cadw llygod allan o'r ysgubor!

Pris newydd is i noddi anifail

Mae'r cathod newydd a phob un o'r anifeiliaid yma ar gael i'w noddi. Oherwydd y dirwasgiad presennol rydym wedi gostwng pris noddi i £5 ar gyfer anifeiliaid bach (gan gynnwys cathod) a £10 am anifeiliaid mawr. Mae'r arian yn mynd tuag at gynnal yr anifeiliaid a bydd noddwyr yn cael pecyn sy'n cynnwys tystysgrif, bathodyn a gwybodaeth am yr anifail a gwahoddiad i gyfarfod eu hanifail ar ddiwrnod noddwyr. I gael rhagor o wybodaeth piciwch i'r ganolfan ymwelwyr, ffoniwch ni ar 01978 822 780 neu e-bostio sue.mills@wrexham.gov.uk neu ymweld ag www.tymawrfriends.btik.com

Llongyfarchiadau MAWR

Hoffem ddiolch yn fawr i'n holl wirfoddolwyr sydd wedi bod yn dod i helpu dros y gaeaf, dan rai amgylchiadau oer a rhewllyd iawn! Rydym yn gwerthfawrogi eich holl ymdrechion yn wirioneddol.

Aeth ein grŵp gwirfoddolwyr dydd Mercher o nerth i nerth gan weithio'n galed ar rai o brosiectau cynnal a chadw'r parc. Yn ddiweddar maent wedi gorffen ailosod darn sigledig iawn o hen ffens sydd fel newydd erbyn hyn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y math hwn o waith yna rydym wedi ail-lansio ein grŵp prynhawn Sul. Bydd y grŵp yn gwneud gwaith ymarferol yn y parc unwaith y mis ac yn bwydo'r anifeiliaid ar ôl cael paned. Os ydych dros 16 ac â diddordeb mewn ymuno â ni, dewch i'n gweld yn y ganolfan ymwelwyr, ffonio 01978 822 780 neu e-bostio bill.slater@wrexham.gov.uk

Gall pobl ifanc rhwng 8 ac 16 sydd eisiau cymryd rhan ymuno â'r clwb ceidwaid iau ac mae ffurflenni cais ar gael o'r ganolfan ymwelwyr.

Wrecsam yn ei Blodau'n dod i Gefn Mawr!

Eleni bydd Wrecsam yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth RHS Cymru yn ei Blodau am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Bydd llawer ohonoch yn gwybod fod y gystadleuaeth hon yn cael ei chynnal ledled y wlad gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol ac mae'n annog trefi a phentrefi i ymfalchïo ynddo eu hamgylchedd a'u gerddi.

Eleni bydd y beirniaid yn cychwyn eu taith ym mhentref gwledig prydferth y Fron ac yn symud trwy Drefor ac ymweld â safle treftadaeth y byd rhyfeddol Pontcysyllte ac yna i Gefn Mawr lle bydd y beirniaid yn cael blas o hanes yr ardal ac yn ôl drachefn i ganol y dref. Ar y ffordd bydd y beirniaid yn ymweld â **Pharc Gwledig Tŷ Mawr.**

Os bydd unrhyw un ohonoch yn hoffi helpu gyda gerddi Tŷ Mawr, os oes gennych unrhyw eginblanhigion blodyn neu lysiau dros ben neu os gallwch roi basged grog, byddem yn bod yn hynod falch o glywed oddi wrthych.

Asynnod yn symud i ddolydd newydd

Ar ôl tair blynedd o broblemau iechyd parhaol meddyliwyd bod gan ein dau asyn mawr, brawd a chwaer Cocoa a Fudge**,** systemau imiwnedd gwan yn eu gwneud yn dueddol i gael heintiau a salwch. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ganlyniad i'w brîd prin.

Wedi cael cyngor ein milfeddyg ac arbenigwyr asynnod rydym wedi gwneud y penderfyniad anodd y byddant yn cael gofal gwell yn y warchodfa asynnod sy'n arwain y byd ar iechyd asynnod.

Rydym yn drist iawn o'u gweld yn mynd, ond yn fodlon o wybod y byddant yn cael y bywyd o foeth gorau bosibl i asyn! Byddant yn cael eu cadw gyda'i gilydd am oes ac rydym yn cael diweddariadau rheolaidd ar sut maent yn gwneud. Yn ddiweddar cawsom glywed eu bod wedi ymuno â haid o asynnod Poitou mawr fel nhw ac yn gwneud yn dda. Mae ein dau hen asyn Winston a Walter a'r ferlen Flicker yn dal gennym.

Gwobrau ceidwaid iau

Ar 12fed Tachwedd daeth Maer Wrecsam i gyflwyno gwobrau i'r ceidwaid a gwirfoddolwyr iau am eu llwyddiannau dros y flwyddyn aeth heibio. Rhoddwyd cyfanswm o 63 o wobrau gan Dŷ Mawr a phrifysgol y plant. Roedd hyn yn cynnwys 23 Ceidwad Iau yn cael eu dyfarniad collen, 11 eu bedwen arian, 6 eu derwen ac 1 yn cael u dyfarniad uchaf, secwoia. Cafodd pobl ifanc ac oedolion wobrau arbennig hefyd am eu holl waith caled yma.

Newyddion y cyfeillion

Mae cyfeillion Tŷ Mawr wedi bod yn brysur yn codi arian trwy redeg caffi, stondinau mewn digwyddiadau, gwneud cais am grantiau a chynnal ras hwyaid. Maent wedi gwneud gwaith gwych ac wedi codi digon o arian i brynu llawer o eitemau ar gyfer y parc fel abwydfa a chasgen ddŵr ar gyfer yr ardd newydd, esgidiau a chotiau glaw newydd i'r ceidwaid iau a chafnau dŵr hunanlanwol ar gyfer yr asynnod. Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd mae'r grŵp hefyd yn cael gweithgareddau cymdeithasol fel dod ynghyd am ginio ac mae rhai aelodau wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant fel hylendid bwyd, cymorth cyntaf a 'sut i fod yn grŵp gwych'. Mae'r grŵp ar hyn o bryd yn chwilio am aelodau newydd yn enwedig i wneud teisenni a chynorthwyo yn y caffi. Dylai pawb â diddordeb ffonio'r parc ar 01978 822780 neu bicio heibio am sgwrs. Mae gan y cyfeillion dudalen Weplyfr a gwefan www.tymawrfriends.btik.com

Digwyddiadau'r Gwanwyn

Dydd Iau 1 Ebrill—Addurno Wyau
Dewch ag ŵy neu ddau wedi'u berwi'n galed I'w haddurno ar gyfer y Pasg a blwch i fynd â nhw adref.
1.30-3.30pm
Pob oed gydag oedolyn £1.75

Sul Y Pasg 4 Ebrill—Helfa'r Pasg
Dilynwch y cliwiau I weld beth allwch chi. Yna hawlio eich gwobr 'wyol'.
10.30am-3.30pm
Pob oed gydag oedolyn £1.75

Dydd Iau 8 Ebrill—Cyfarfod yr Anifeliaid
Troeon tywysedig 1/2 awr, myn-ediad rhwydd gyda'r ceidwad. Mae'r daith yn ystyriol o gadeiriau olwynion a bygis.
1.30-3.30pm
Tocynnau cerdded yn y ganolfan ymwelwyr—£1.50
Reidiau ar y tractor—£1.50
Tocyn cyfunol—£2.50
Pob oed gydag oedolyn

Dydd Sadwrn 8 Mai—Gwrtaith Am Ddim
Dewch â sach a hawlio'ch gwrtaith am ddim 'wedi' I ailgylchu'.
10.00am-4pm
Plannu hadau I 'dyfu eich planhigion eich hum'.
1.30-3.30pm
Croeso I chi gygrannu

Dydd Iau 3 Mehefin—Cneifio Defaid a Rhyfeddodau Gwlanog
Cewch weld ein defaid preswyl yn cael eu cneifio, gwylio crefft hynafol nyddu, a rhoi cynnig ar weu. Croeso I chi gygrannu.
1.30-3.30pm

Dydd Llun 7 Mehefin—Crwydro am Flodau Gwyllt ar ôl Ysgol
Ymunwch â'r ceidwaid iau I chwilio am flodau gwyllt o gwmpas y parc.
4.00—5.00pm Am ddim
Pob oed gydag oedolyn

Dydd Sadwrn 19 Mehefin—Sioe Gŵn
Gan eich ci chi mae'r gynffon fwyaf siglog? Cynigiwch yn y sioe gŵn hwyliog gôn gyda chefnogaeth cyfeillion Tŷ Mawr.Cynigion o 11.00am. Beiriadu'n dechrau am 1.00pm £1.50 y dosbarth—£5 am 4 dosbarth